OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2018 No. 1216

# Rheoliadau yr Amgylchedd, Cynllunio a Materion Gwledig (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2018

## RHAN 4

Diwygiadau i ddeddfwriaeth sy'n ymwneud ag amaethyddiaeth

### Rheoliadau Marchnata Deunyddiau Planhigion Llysieuol 1995

**21.**—(1) Mae Rheoliadau Marchnata Deunyddiau Planhigion Llysieuol 1995(**1**) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 5(d)(i), yn lle "the Vegetable Seeds Regulations 1993(**2**)" rhodder "the Seed Marketing (Wales) Regulations 2012(**3**)".

(3) Yn rheoliad 8(4), yn lle "the Vegetable Seeds Regulations 1993" rhodder "the Seed Marketing (Wales) Regulations 2012".

### Rheoliadau Marchnata Deunyddiau Lluosogi Planhigion Addurniadol 1999

**22.**—(1) Mae Rheoliadau Marchnata Deunyddiau Lluosogi Planhigion Addurniadol 1999(**4**) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 2(1)—

(a) hepgorer y diffiniad o "Directive 77/93/EEC";

(b) yn y diffiniad o "Directive 98/56/EC", ar y diwedd mewnosoder ", as last amended by Regulation (EU) No 652/2014 of the European Parliament and of the Council(**5**)";

(c) ar ôl y diffiniad o "Directive 98/56/EC" mewnosoder—

""Directive 2000/29/EC" means Council Directive 2000/29/EC on protective measures against the introduction into the Community of organisms harmful to plants or plant products and against their spread within the Community(**6**);".

(3) Yn rheoliad 9(2), yn lle "Council Directive 77/93/EEC" rhodder "Directive 2000/29/EC".

(**1**) O.S.1995/2652, a ddiwygiwyd gan O.S. 2007/2190 (Cy. 174); mae offerynnau diwygio eraill, ond nid oes yr un ohonynt yn berthnasol.
(**2**) O.S.1993/2008, a ddirymwyd o ran Cymru gan O.S. 2005/3035 (Cy. 223).
(**3**) O.S. 2012/245 (W. 39), y mae diwygiadau iddo nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.
(**4**) O.S. 1999/1801.
(**5**) OJ Rhif L 189, 27.6.2014, t. 1.
(**6**) OJ Rhif L 169, 10.7.2000, t. 1, fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan Gyfarwyddeb Gweithredu'r Comisiwn (EU) Rhif 2017/1920 (OJ Rhif L 271, 20.10.2017, t. 34).

**Rheoliadau Marchnata Cynnyrch Garddwriaethol Ffres (Cymru) 2009**

**23.** Yn rheoliad 2(2) o Reoliadau Marchnata Cynnyrch Garddwriaethol Ffres (Cymru) 2009(**7**), yn lle'r diffiniad o "Rheoliad (EU) 2013" ("*Regulation (EU) 2013*") rhodder—

> "Ystyr "Rheoliad (EU) 2013" ("*Regulation (EU) 2013*") yw Rheoliad (EU) Rhif 1308/2013 Senedd Ewrop a'r Cyngor sy'n sefydlu trefniadaeth gyffredin ar gyfer marchnadoedd cynhyrchion amaethyddol(**8**), fel y'i diwygir o bryd i'w gilydd;".

**Rheoliadau Tatws Hadyd (Cymru) 2016**

**24.** Yn rheoliad 3 o Reoliadau Tatws Hadyd (Cymru) 2016(**9**)—

(a) yn y diffiniad o "y Penderfyniad" ("*the Decision*"), ar y diwedd mewnosoder ", fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan Benderfyniad Gweithredu'r Comisiwn (EU) 2016/320(**10**)";

(b) yn y diffiniad o "y Gyfarwyddeb" ("*the Directive*"), ar y diwedd mewnosoder ", fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan Gyfarwyddeb Weithredu'r Comisiwn (EU) 2016/317(**11**)".

(**7**) O.S. 2009/1551 (Cy. 151), a ddiwygiwyd gan O.S. 2013/3270 (Cy. 320); mae offerynnau diwygio eraill, ond nid oes yr un ohonynt yn berthnasol.
(**8**) OJ Rhif L 347, 20.12.2013, t. 671.
(**9**) O.S. 2016/106 (Cy. 52), a ddiwygiwyd gan O.S. 2017/596 (Cy. 39).
(**10**) OJ Rhif L 60, 5.3.2016, t. 88.
(**11**) OJ Rhif L 60, 5.3.2016, t. 72.